# Person wedi'i arestio yng Nghymru yn dilyn ymchwiliad yr ASB i droseddau bwyd

Gwnaeth swyddogion yr NFCU, ynghyd â Heddlu Dyfed-Powys, ymweld â fferm yng Nghymru ddydd Mercher 4 Rhagfyr ac arestio un dyn.

Mae'r arestiad hwn yn gysylltiedig â phum arestiad blaenorol a wnaed yn Llundain ddydd Llun 25 Tachwedd 2024, a hynny mewn cysylltiad ag atafaeliadau o gig a oedd dan amheuaeth o fod yn anghyfreithlon.

Cafodd y dyn ei gyfweld gan swyddogion yr NFCU, ac mae wedi cael ei ryddhau dan ymchwiliad.

> "Gwnaeth swyddogion o'r Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd, a oedd yn gweithio gyda Heddlu Dyfed-Powys, arestio dyn 52 oed o Orllewin Cymru ar amheuaeth o gynllwynio i gyflenwi cig anaddas. Roedd hyn yn rhan o ymchwiliad i gig a oedd dan amheuaeth o fod yn anghyfreithlon ac yn anniogel.
>
> Mae 'smokies' yn broblem diogelwch bwyd gan nad ydynt yn cael eu cynhyrchu o dan amodau hylan, ac maen nhw'n anghyfreithlon oherwydd bod y cig yn dal i gynnwys y croen ac nad oes modd ei olrhain. Rydym yn cynghori pobl i gadw'n glir o gig dafad a gynhyrchir drwy'r dull hwn gan y gallai beri risg i iechyd. Dylent gysylltu â'u tîm Safonau Masnach lleol neu'r ASB os ydynt yn amau bod 'smokies' yn cael eu cynhyrchu neu eu gwerthu.
>
> Os byddwn yn dod o hyd i unrhyw fwyd anniogel ar y farchnad, byddwn yn cymryd camau i ddiogelu'r cyhoedd. Os ydych yn amau troseddau bwyd, rhowch wybod i'r tîm Trechu Trosedd Bwyd yn Gyfrinachol. Maen nhw bob amser ar gael ar food.gov.uk neu drwy ffonio 0800 028 1180."
>
> **Neil Castle, Dirprwy Bennaeth NFCU yr ASB**